# YMWELIADAU SAFLEOEDD CYNLLUNIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Ionawr, 2017

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ann Griffith (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, Kenneth Hughes, Vaughan Hughes, Victor Hughes |
| **WRTH LAW**: | Arweinydd Tîm Gorfodaeth Cynllunio (IWJ)<br>Swyddog Priffyrdd |
| **YMDDIHEURIADAU**: | Y Cynghorwyr Lewis Davies, Jeff Evans, Nicola Roberts |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Cynghorydd Dylan Rees (fel Aelod Lleol ar gyfer cais 1) |

---

1. **34C304K/1/EIA/ECON – Cais Hybrid am ganiatâd cynllunio llawn ar gyfer canolfan beirianneg newydd, maes parcio, ardal chwarae i blant a gwaith cysylltiedig ac am ganiatâd cynllunio amlinellol gyda rhai materion wedi'u cadw'n ôl ar gyfer datblygiad preswyl o 157 o anheddau, gwesty a chyfleuster bwyd a diod, ynghyd â maes parcio cysylltiedig a gwaith ar dir yn Coleg Menai, Ffordd y Coleg, Llangefni**

   Gohiriwyd yr ymweliad safle i ddyddiad arall wedi i'r Swyddog Cynllunio ddweud eu bod yn disgwyl am wybodaeth bellach gan yr ymgeisydd. Bydd yr ymweliad yn cael ei ail-drefnu unwaith y bydd y wybodaeth honno wedi dod i law.

2. **14C171J/ENF – Cais ôl-weithredol ar gyfer cadw a chwblhau llety gwyliau newydd, ynghyd â newid defnydd a wneir o dir i ddibenion marchogyddiaeth cysylltiedig yn Fferm Stryttwn, Tynlon**

   Rhoes y Swyddog Cynllunio eglurhad o'r safle a'r cynigion. Gofynnwyd cwestiynau am y fynedfa, y llety gwyliau a'r modd y bwriedir newid y defnydd a wneir o'r tir. Dangosodd y Swyddog i'r Aelodau leoliad y llety gwyliau, y stablau presennol a'r tir sy'n gysylltiedig gyda'r newid defnydd arfaethedig. Eglurodd y Swyddog Priffyrdd y trefniadau mynediad a'r gwelliannau y bwriedir eu gwneud.

**Y Cynghorydd Ann Griffith**
**Cadeirydd**